Gwyddoniaeth
Pawb

# Gwneud Eich Tâp Hadau Eich Hun

- Planhigion



## Trosolwg

Mae defnyddio tâp hadau yn ffordd hawdd ac effeithlon o blannu, gan sicrhau bod bylchau cyfartal rhwng yr hadau a'r rhesi. Mae posib defnyddio'r gweithgaredd creadigol yma fel prosiect ysgol gyfan i annog tyfu a chynyddu bioamrywiaeth ar dir yr ysgol.

## Adnoddau

- Papur newydd
- Siswrn
- Pin ffelt marcio
- Hadau
- Blawd
- Dŵr
- Jar neu dwb i'w storio
- Bandiau rwber bach

## Gweithgaredd

1. Torrwch bapur newydd yn stribedi tua 4cm o led.
2. Ar bob stribed ysgrifennwch enw'r hadau sydd i'w plannu.
3. Ymchwiliwch i'r gofod sydd ei angen rhwng hadau drwy ddefnyddio pecyn hadau neu edrych ar-lein.
4. Defnyddiwch bren mesur a phin ffelt marcio i ddotio'r papur ar y pellteroedd sydd eu hangen.
5. Mewn cynhwysydd bach, cymysgwch 1 llwy fwrdd o flawd gydag 1 llwy de o dd□r i wneud past.
6. Rhowch y past ar y dotiau sydd wedi'u marcio.
7. Rhowch hedyn ar bob blob o bast.
8. Unwaith bydd yn sych, rholiwch ef i fyny a'i ddal ar gau gyda band lastig.
9. Storiwch y rholiau mewn twb neu jar nes bod eu hangen.

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Creu cynnyrch menter cynaliadwy.
- Deall sut mae hadau'n egino.

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio ar y cyd â'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

| Maes pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| Llythrennedd ac Iaith | Testunau cyfarwyddiadol | Ysgrifennu cyfarwyddiadau eich hun i wneud tâp hadau |
| | Iaith ddarbwyllol | Creu hysbyseb i werthu eich tâp i arddwyr |
| Gwyddoniaeth | Planhigion | Trafod pa hadau fydd angen egino |
| Celf | Dylunio | Dylunio pecyn/labeli hadau ar gyfer eich tâp hadau |
| Mathemateg | Mesuriadau | Mesur y gofod, y blawd a'r dŵr yn fanwl gywir |
| | | Cyfrif y tapiau sydd eu hangen ar gyfer potiau plannu neu ofod mewn gardd |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890